# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 11 Tachwedd 2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Yn y ddwy flynedd ariannol diwethaf, faint o grantiau sydd wedi cael eu rhoi drwy'r Gronfa Buddsoddi Sengl a beth oedd gwerth cyfartalog y grantiau hynny. (WAQ55105)

***Rhoddwyd ateb ar 17 Tachwedd 2009***

Rhwng 17 Ebrill 2008 (pan lansiwyd y Gronfa Fuddsoddi Sengl) a 30 Medi 2009, gwnaed 1,132 o gynigion gyda chyfanswm gwerth o £124.9 miliwn (£110,336 y cynnig ar gyfartaledd).

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Yn dilyn ateb y Gweinidog i WAQ54887, a wnaiff ddarparu dadansoddiad manwl o'r ffigurau hyn yn cynnwys dangos i ba werthiant o dir y mae'r ffigurau'n cyfeirio ato. (WAQ55098)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Tachwedd 2009***

Mae dadansoddiad manwl o'r ffigurau a geir yn WAQ 54887 i'w weld yn y tabl isod.

Mae'r tabl yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r holl werthiannau tir ac eiddo a wnaed gan Lywodraeth y Cynulliad yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Roedd eich cwestiwn cynharach (WAQ54887) yn cyfeirio at yr ateb a roddais i WAQ 54585, gan Darren Millar a oedd yn gofyn am wybodaeth ynglŷn ag eiddo (nid tir yn benodol) a werthwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Er mwyn sicrhau cysondeb â'm hymatebion cynt, mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad cynhwysfawr, manwl o'r holl drosglwyddiadau eiddo, y gellir eu defnyddio i nodi gwerthiannau tir.

Byddwch yn nodi nad yw'r ffigurau yn cyfateb yn union i'r ffigurau a roddwyd wrth ymateb i WAQ 54887. Y prif resymau dros hyn yw bod:

- ffioedd trosglwyddiadau eiddo yn gallu rhychwantu cyfnod o amser. Ni eir atyn iddynt bob tro, neu ni yn gyfan gwbl, yn ystod yr un flwyddyn ariannol â'r trosglwyddiad gwerthu ei hun. Dynodir y ffioedd isod yn ôl yr eiddo y maent yn berthnasol iddynt ac maent yn amrywio felly o'r rhai a ddyfynnwyd yn flaenorol, a fynegwyd yn ôl y blynyddoedd ariannol unigol.

- Roedd y ffigurau cryno i'ch WAQ 54887 yn cynnwys ffioedd syrfewyr a chyfreithiol a oedd yn gysylltiedig ag eiddo AETh yn system ariannol SAP. Mae'r wybodaeth isod wedi cael ei mireinio yn dilyn adolygiad unigol o gopïau caled y ddogfennaeth ategol sy'n gysylltiedig â phob trosglwyddiad.

Mae 'Dim' ar yr amserlen yn cynrychioli trosglwyddiadau y deliwyd â hwy gan weithwyr proffesiynol mewnol tirfesur a chyfreithiol (Llywodraeth y Cynulliad).

| **WAQ 55098 2004-05** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyddiad | Cyfeiriad | Pris | Gwerthwr | Ffioedd cyfreithiol | Ffioedd syrfewyr |
| 03/12/04 | Ysbyty Llannerch Banna, ger Wrecsam | 2,500,000 | GIG Gweddilliol | 7,500 | 8,420 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 03/12/04 | Ysbyty Bryntirion, Llanelli * | 2,259,000 | GIG Gweddilliol | 15,400 | 14,300 |
| 28/04/04 | Tir yn Llanfairfechan | 1,750 | TPG | 1,138 | 59 |
| 28/04/04 | Tir ar safle Garej Esso Pen-sarn | 150,000 | TPG | 834 | 3,525 |
| 25/06/04 | Tir yn Travellers Rest | 1,500 | TPG | 672 | 353 |
| 13/10/04 | Tir ar safle Milfeddygfa, Dolgellau | 1,500 | TPG | 672 | 118 |
| 10/12/04 | Tir ym Modorgan, Ynys Môn | Dim | TPG | 664 | Dim |
| 24/01/05 | Tir ym Mhen yr Heol, Sgiwen | 15,000 | TPG | 685 | 1,441 |
| 27/01/05 | Tir ar safle Wells Kelo, Caergybi | 610,305 | TPG | 5,496 | 4,100 |
| 17/03/05 | Tir yn Bush Farm, Y Felinheli | 1,395 | TPG | 2,001 | 450 |
| **Cyfanswm** | **2004-05** | **5,540,450** | **10 gwerthiant** | **35,060** | **32,764** |

* Yn cynnwys elfen o ffioedd ar gyfer ffurfioli daliadaethau trydydd parti

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pa gyfran o'r arian a warir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gaffael nwyddau a gwasanaethau a warir ar fusnesau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. (WAQ55099)

***Rhoddwyd ateb ar 17 Tachwedd 2009***

Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yw hysbysebu'r holl gyfleoedd tendro sydd dros £25,000 ar wefan Gwerthwchigymru.:

- Yn ystod 2007/8 hysbysebwyd tua 350 o'r cyfryw dendrau drwy'r porth.
- Mae'r dadansoddiad diweddaraf o ddata 2007/8 yn dynodi y caiff amcangyfrif o 42% o wariant masnach craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei wario gyda busnesau â chyfeiriadau anfoneb â chod post yng Nghymru. Mae hyn yn werth amcangyfrifedig o £138m y flwyddyn. Mae amcangyfrif o £50m pellach yn ymwneud â gwariant sy'n cwmpasu gwasanaethau cynnal a chadw a chymorth TGCh ar safleoedd ac fe'i hanfonebir gan gyflenwyr fel Siemens, Post Brenhinol a BT.
- Cafodd digwyddiadau 'Cwrdd â'r Prynwr' ar gyfer dau gontract adeiladu newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru eu hysbysebu ar Gwerthwchigymru i gyflwyno busnesau yng Nghymru i'r prif gontractwyr. O ganlyniad uniongyrchol i'r digwyddiad a gynhaliwyd yng Nghyffordd Llandudno, dyfarnwyd gwerth tua £250,000 o waith i gwmnïau lleol ac o'r £13.2 miliwn a wariwyd ar adeiladu hyd yn hyn, mae dros £8.5 miliwn (64%) wedi ei wario'n lleol.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog nodi gwerth yr asedau sy'n eiddo i Lywodraeth Cynulliad Cymru gan roi gwerth yr ased ym mhob un achos. (WAQ55100)

***Rhoddwyd ateb ar 17 Tachwedd 2009***

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn berchen ar filoedd o asedau. Tra bod gwybodaeth yn cael ei chadw ar sail asedau unigol byddai'n amhriodol nodi'r wybodaeth ar gyfer pob ased o ran yr ymateb hwn.

Ceir crynodeb o'r wybodaeth hon bob blwyddyn o fewn ei Chyfrifon Blynyddol a gyhoeddir. Dangosir gwerth net asedau yn ôl y prif fathau o asedau (ar 31 Mawrth 2009) yn y tabl isod.

| Math o Ased | Gwerth £000 |
|---|---|
| | |
| Asedau Anniriaethol e.e. meddalwedd | 3,846 |
| Rhwydwaith Ffyrdd | 11,548,313 |
| Tir ac Adeiladau Rhydd-ddaliadol | 92,123 |
| Anheddau | 1,455 |
| Cerbydau | 114 |
| Technoleg Gwybodaeth | 20,216 |
| Peiriannau ac Offer | 7,225 |
| Gosodion a Ffitiadau | 7,713 |
| Asedau yn cael eu hadeiladu e.e. Ffyrdd ac adeiladau newydd yn Aberystwyth a Llandudno | 346,917 |
| **CYFANSWM** | **12,027,922** |

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i fuddsoddi mewn technoleg newydd i fanteisio mwy ar lawfeddygaeth leiaf ymyrrol er mwyn lleihau heintiau a gafwyd yn yr ysbyty a gwella canlyniadau goroesi cleifion. (WAQ55097)

***Rhoddwyd ateb ar 17 Tachwedd 2009***

Dyrennir £56 miliwn i gyrff y GIG bob blwyddyn i fuddsoddi mewn cynlluniau cyfalaf bach ac offer / technoleg newydd. Mater i bob BILl yw ystyried ei flaenoriaethau buddsoddi cyfalaf yng nghyd-destun cyflawni ei amcanion strategol, ac mae BILlau yn gwneud buddsoddiad sylweddol yn y dechnoleg hon. Mae lleihau heintiau a gwella canlyniadau yn parhau i fod yn flaenoriaethau pwysig i sefydliadau'r GIG, y dylid eu hadlewyrchu yn eu targedau lleihau Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd (HCAI) y cytunir arnynt yn lleol.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**: Faint o arian sydd wedi cael ei neilltuo yng nghyllideb eleni a'r flwyddyn nesaf ar gyfer y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru, ac ym mha linell gwariant yn y gyllideb y gwelir yr arian hwn. (WAQ55103)

***Rhoddwyd ateb ar 17 Tachwedd 2009***

Y Gyllideb ar gyfer y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yn 2009/10 yw £4m. Roedd hyn yn cynnwys £1.7m ar gyfer y Comisiynydd Pobl Hŷn ac £80k ar gyfer y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn. Mae'r balans, sef £2.22m, yn cael ei ddefnyddio ar gyfer grantiau i Awdurdodau Lleol a sefydliadau'r sector gwirfoddol yng Nghymru yn ogystal â'r cymorth canolog y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei roi i weithredu'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn.

Y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2010/11 yw £3.441m. Mae hyn yn cynnwys £1.8m ar gyfer y Comisiynydd Pobl Hŷn ac £80k ar gyfer y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn. Defnyddir y balans o £1.56m i roi grantiau i Awdurdodau Lleol, sefydliadau'r sector gwirfoddol a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn yr un modd â 2009-10. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys £1m i adlewyrchu ein penderfyniad i beidio â throsglwyddo'r grant awdurdod lleol i'r grant cynnal refeniw fel y cynlluniwyd. Cynhwysir y Gyllideb ar gyfer y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yn Llinell Gwariant Cyllideb 0661.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A yw'r Gweinidog yn bwriadu ymchwilio i'r honiad a wnaed mewn tystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor Cyllid, sef nad yw hyd at un rhan o bump o gyllideb y GIG yn cael ei wario'n effeithlon. (WAQ55104)

***Rhoddwyd ateb ar 17 Tachwedd 2009***

Nac ydw.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i addasu’r lluosydd a ddefnyddir i gyfrifo Ardrethi Busnes yng Nghymru. (WAQ55101)

***Rhoddwyd ateb ar 17 Tachwedd 2009***

Rwy'n bwriadu gostwng y lluosydd ar gyfer 2010-2011 o 0.489 i 0.409. Mae hyn yn ostyngiad o dros 16 y cant, sy'n golygu y bydd biliau tua 60 y cant o dalwyr ardrethi yng Nghymru yn is y flwyddyn nesaf.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i newid y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach yn sgil y broses ailbrisio sydd ar y gweill ar hyn o bryd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio. (WAQ55102)

***Rhoddwyd ateb ar 17 Tachwedd 2009***

Ni chaiff yr arian sydd ar gael i'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Busnesau Bach ei leihau o ganlyniad i'r ailbrisio, ac rwy'n ystyried y newidiadau angenrheidiol i'r trothwyon rhyddhad.